Y ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol

# Canllawiau perfformiad ar gyfer adrannau'r llywodraeth

Mae gan holl adrannau'r llywodraeth a gweinidogion y goron ddyletswydd statudol gyffredinol i weithio tuag at ddileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon, ac i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da. Fel penseiri deddfau a pholisïau sy'n llunio bywydau pobl, maent hefyd yn gyfrifol am arwain y ffordd o ran hyrwyddo cydraddoldeb hiliol i'r holl awdurdodau cyhoeddus. Mae sut y bydd llywodraeth ganolog a'i hasiantaethau yn ymdrin â ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn arwydd yn y pen draw o lwyddiant neu fethiant y prosiect cysylltiadau hiliol mwyaf uchelgeisiol ers pasio Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976.

Disgrifia'r daflen hon y prif ganlyniadau a fydd yn nodweddu adran sy'n cyflawni ei dyletswydd yn dda. Mae hefyd yn amlinellu rhai o'r ffyrdd y gall adrannau'r llywodraeth ddangos eu bod yn cyflawni'r ddyletswydd.

Dylai'r daflen hon fod yn ddefnyddiol i lawer o gyrff, yn ogystal ag i'r cyhoedd sy'n dymuno gwybod pa mor dda mae adran yn perfformio. Er enghraifft, gall archwilwyr a'r CRE ddefnyddio'r daflen hon fel arweiniad i'r perfformiad y gallant ei ddisgwyl oddi wrth adran lwyddiannus. Bydd gweision sifil a gweinidogion hefyd yn gweld y daflen yn ddefnyddiol pan fydd arnynt angen gwybod a yw eu gwaith, a gwaith eu hadran yn gyffredinol, yn gwneud gwahaniaeth i gyflawni'r ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da. Mae'r rhan fwyaf o'r canlyniadau a'r gweithgareddau a restrwn yma yn debygol o gael eu cynnwys yng nghynllun cydraddoldeb hiliol yr adran (a fydd yn amrywio o un adran i'r llall).

Nid oes gan y daflen hon rym statudol. Bwriedir iddi fod yn ganllaw cryno i'r perfformiad y dylai adrannau llywodraeth ganolog anelu atynt wrth gyflawni eu dyletswydd. Argymhellwn y dylai adrannau hefyd ddefnyddio'r *Côd Ymarfer ar y Ddyletswydd i Hyrwyddo Cydraddoldeb Hiliol* (dogfen statudol sy'n rhoi arweiniad ynghylch cyflawni'r ddyletswydd gyhoeddus newydd) *a'r Canllaw i Awdurdodau Cyhoeddus* (dogfen anstatudol sy'n rhoi cyngor mwy manwl ac enghreifftiau ymarferol) i ddatblygu strategaethau llawn ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Mae gwybodaeth a chyngor defnyddiol ar gael hefyd ar y gwefannau canlynol:

- www.cre.gov.uk
- www.homeoffice.gov.uk
- www.cabinet-office.gov.uk

COMISIWN CYDRADDOLDEB HILIOL

# Canlyniadau bodloni'r ddyletswydd

## Bodlondeb cymunedol a chyfleoedd cyfartal

- Mae pobl o bob grŵp ethnig yr un mor fodlon gyda'r:
  - adran yn gyffredinol;
  - polisïau unigol, a'r modd y mae'r adran yn eu gwireddu; ac
  - ansawdd ei gwasanaethau.
- Dywed pobl o bob grŵp ethnig fod ganddynt hyder yn yr adran a'i gweinidogion.
- Nid oes unrhyw wahaniaethau sylweddol mewn canlyniadau polisi rhwng gwahanol grwpiau ethnig.
- Mae'r adran yn darparu ar gyfer amrywiaeth eang o anghenion, drwy wasanaethau a pholisïau hyblyg sydd wedi eu dylunio'n dda.
- Mae'r adran yn gwneud penderfyniadau yn agored, ac mae'n atebol i'r buddiannau y mae'n eu gwasanaethu.
- Ceir dealltwriaeth eang ynghylch, a chefnogaeth i, werthoedd yr adran a'i nodau o ran cydraddoldeb hiliol.
- Mae diddordeb ac awydd i gyfrannu yn ymgynghoriadau'r adran wedi cynyddu, yn arbennig ymysg pobl o leiafrifoedd ethnig.
- Mae cwynion, yn gyffredinol, yn isel, ac nid oes unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng grwpiau ethnig o ran cwynion am wasanaethau a pholisïau'r adran.

## Bodlondeb y staff a chyfleoedd cyfartal

- Mae gweithlu'r adran – yn ganolog ac yn ei swyddfeydd rhanbarthol a'i hasiantaethau – yn gynrychioliadol ar bob lefel o'r boblogaeth – lleol neu genedlaethol – y mae'r adran yn llenwi ei swyddi o'u plith.
- Mae staff yn ymwybodol o ac yn deall nodweddion diwylliannol amrywiol y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Defnyddiant y wybodaeth hon i ddatblygu polisïau a deddfau nad ydynt yn rhoi unrhyw grwpiau o dan anfantais heb unrhyw gyfiawnhad dros hynny.
- Mae hyder y staff yn yr adran yn uchel ymysg yr holl grwpiau ethnig.
- Mae arferion cyflogaeth yr adran yn denu ymgeiswyr da o blith yr holl grwpiau ethnig.
- Mae gan yr adran enw da fel cyflogwr teg.

## Hyder a pharch

- Mae gweinidogion a swyddogion yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau o dan y ddyletswydd gyhoeddus newydd, ac maent yn hyderus ynghylch hyrwyddo'r ddyletswydd a pholisïau'r adran.
- Mae'r adran yn gosod safonau uchel ar gyfer y cyrff y mae yn gweithio â hwy, ac ar gyfer y cyrff sy'n gweithio iddi.
- Perchir yr adran oherwydd ei hymrwymiad i - a'i llwyddiant wrth – hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a chysylltiadau hiliol da.

# Tystiolaeth o gyflawni'r ddyletswydd

## Arweinyddiaeth

Mae arweinyddiaeth gryf yn hanfodol os yw adrannau'r llywodraeth i gyflawni'r ddyletswydd gyhoeddus newydd. Bydd adran sy'n hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn effeithiol yn gallu dangos y canlynol.

- Mae gweinidogion wedi gwneud ymrwymiad cyhoeddus i ymdrin â gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon, ac i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a chysylltiadau hiliol da.
- Mae gweision sifil uwch a gweinidogion yn arwain yn gadarn ac yn gyson ynghylch hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.
- Mae gan weinidogion yr adnoddau i wireddu eu hymrwymiad i gydraddoldeb hiliol, a gallant ddibynnu ar gefnogaeth gref a chyngor oddi wrth weision sifil wrth hyrwyddo'r ddyletswydd.
- Mae gweinidogion ac uwch swyddogion yn deall egwyddorion hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Gofalant fod yr egwyddorion hyn yn llywio holl agweddau gwaith yr adran. Maent wedi nodi yn gyhoeddus eu bod yn atebol am hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.
- Mae uwch swyddogion o leiafrifoedd ethnig yn chwarae rhan weithredol a chyfrifol ym mhob maes o waith yr adran. Nid ydynt yn cael eu gwthio i'r ymylon, a disgwylir iddynt ymwneud â mwy na dim ond gwaith yr adran ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

## Gwasanaethau a pholisïau

Amcan y ddyletswydd gyffredinol yw gwneud cydraddoldeb hiliol yn ganolog i'r modd y mae adrannau'r llywodraeth a'u hasiantaethau yn gweithio. Dylai gwasanaethau, polisïau, a gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r ddyletswydd adlewyrchu hyn. Bydd adran lwyddiannus yn gallu dangos y canlynol.

**Mae'r adran wedi nodi swyddogaethau a pholisïau sy'n berthnasol i'r ddyletswydd.**

- Mae'r adran wedi ystyried ei holl swyddogaethau a'r ffyrdd y mae'n eu cyflawni. Mae wedi penderfynu pa rai o'i swyddogaethau sy'n berthnasol i'r ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol, ac wedi eu rhoi yn nhrefn blaenoriaeth.
- Mae pob rhan o'r adran, a'i hasiantaethau, yn ymwneud ag adolygu swyddogaethau.
- Mae'r adran yn bwriadu ailadrodd yr asesiad hwn bob tair blynedd o leiaf.

**Mae'r adran wedi trefnu i asesu, ac ymgynghori ynghylch, yr effaith y mae ei hargymhellion polisi yn debygol o'i gael ar y ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.**

- Mae gan yr adran weithdrefnau ar gyfer asesu ei hargymhellion polisi ar gyfer eu heffaith bosibl ar gydraddoldeb hiliol.
- Mae'r adran yn cymryd camau i nodi amrediad llawn anghenion yn y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Mae'n gofalu bod pawb yn gwybod am ei chynlluniau ymgynghori a sut y gallant gymryd rhan.
- Mae'r adran yn cyflawni asesiadau o'i hargymhellion polisi drwy gasglu cymaint o wybodaeth â phosibl ar y pwnc. Mae'n ymgynghori â staff yn yr adran ac ar draws Whitehall (ar lefel gweinidogaethol a swyddogol), eu cynrychiolwyr, defnyddwyr ei gwasanaethau, ac aelodau'r cyhoedd (gan gynnwys pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig) fel rhan o'r asesiadau hyn.

- Mae'r adran yn defnyddio agweddau ffurfiol a rhai sy'n seiliedig ar y gymuned wrth ymgynghori. Er enghraifft, mae'n defnyddio cyfarfodydd cyhoeddus, 'e-arolygon', rhaglenni allanol, a chysylltiadau gyda chynrychiolwyr cymunedol, yn arbennig o grwpiau nad yw'n ymgynghori â hwy yn rheolaidd.

- Mae'r adran yn ystyried dewisiadau polisi eraill, pan ddengys ei hasesiadau a'i hymgynghoriadau y gallai ei pholisïau gael effeithiau niweidiol ar rai grwpiau ethnig.

**Mae'r adran wedi trefnu i fonitro effeithiau ei pholisïau ar wahanol grwpiau.**

- Mae'r adran yn defnyddio mesurau perfformiad sefydledig, fel cytundebau gwasanaeth cyhoeddus, a'i dangosyddion perfformiad ei hun, i fonitro polisïau ar gyfer eu heffeithiau ar wahanol grwpiau ethnig.

- Mae'r adran yn gosod targedau uchelgeisiol ond cyraeddadwy i wneud cynnydd parhaus tuag at hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.

- Mae'r adran yn defnyddio systemau rheoli perfformiad i sicrhau bod cydraddoldeb hiliol yn rhan o'i gwaith bob dydd. Adlewyrchir hyn yng ngwaith yr holl unedau ac asiantaethau.

- Mae'r adran yn defnyddio canlyniadau ei hasesiadau a'i hymgynghoriadau, gan gynnwys monitro ethnig, i wella ei pholisïau a'i gwasanaethau.

**Mae'r adran wedi trefnu i gyhoeddi adroddiadau ar ei hasesiadau, ymgynghoriadau a monitro ethnig bob blwyddyn.**

- Mae'r adran yn cadw cofnodion y gellir cael gafael arnynt yn hawdd o'i monitro, ymgynghoriadau, ac asesiadau, ac o unrhyw newidiadau y mae'n eu gwneud i'w pholisïau o ganlyniad.

- Mae'r adran yn cyhoeddi crynodebau hawdd eu darllen o'i hasesiadau, ymgynghoriadau, a monitro. Er enghraifft, mewn llythyrau newyddion, cyhoeddiadau achlysurol, ei hadroddiad blynyddol, ac ar ei gwefan. Mae'r crynodebau yn cynnwys gwybodaeth am unrhyw newidiadau mae'r adran yn bwriadu eu gwneud i'w pholisïau o ganlyniad.

**Mae'r adran wedi gwneud trefniadau i bawb gael mynediad at wybodaeth am ei gwaith, a'i gwasanaethau.**

- Mae'r adran yn defnyddio amrywiol ddulliau i ddarparu gwybodaeth, ac i hyrwyddo ei gwasanaethau.

- Mae'r adran yn cynhyrchu gwybodaeth mewn ieithoedd gwahanol, ac yn darparu cyfieithwyr ar gyfer ei gwasanaethau, pan fo angen hynny.

- Mae gan yr adran weithdrefnau effeithiol, effeithlon, ac agored i ymdrin â chwynion am ei gwasanaethau.

**Mae'r adran wedi cynhyrchu a chyhoeddi cynllun cydraddoldeb hiliol.**

- Mae cynllun yr adran yn cynnwys strategaeth a chynllun gweithredu i gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol ac unrhyw ddyletswyddau penodol.

- Mae'r cynllun yn gynllun tair blynedd wedi ei amserlennu ac yn un realistig, a ddaeth i rym ar 31 Mai 2002 yng Nghymru a Lloegr, ac a ddaw i rym yn yr Alban ar 30 Tachwedd 2002.

- Trefnir y cynllun o amgylch cyflawni'r canlyniadau a ddisgrifiwyd o dan 'Canlyniadau cyflawni'r ddyletswydd'.

- Mae'r adran yn adolygu'r cynllun yn rheolaidd, ac yn adrodd yn gyhoeddus am gynnydd, gan ddefnyddio systemau a phrosesau cyfredol yr adran.

- Cyhoeddwyd y cynllun ar wefan yr adran, ac mewn ffurf print. Mae ar gael hefyd mewn fformatau eraill, o wneud cais amdanynt. Dosbarthwyd copïau i'r staff i gyd, yn yr adran ac ar draws Whitehall, ac maent ar gael i aelodau'r cyhoedd.

**Mae'r adran wedi gosod amcanion cydraddoldeb hiliol ar gyfer ei holl waith partneriaeth, ac ar gyfer gwaith a wneir ar ei chyfer o dan gytundeb.**

- Mae'r adran yn rhoi gwybod i gyrff sy'n gweithredu fel partneriaid ei bod yn bwriadu gweithio yn unol ag egwyddorion y ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.
- Mae'r adran yn perswadio ei phartneriaid i fabwysiadu'r egwyddorion hyn fel prif egwyddorion ar gyfer gweithgareddau'r bartneriaeth.
- Mae'r adran wedi cynnwys ei dyletswyddau cydraddoldeb hiliol oddi mewn i'w chytundebau gwasanaeth a chytundebau caffael fel safonau perfformiad ar gyfer cyflwyno gwasanaethau sy'n berthnasol i'r ddyletswydd.

## Cyflogaeth

**Mae'r adran wedi trefnu i hyfforddi ei staff ynghylch y ddyletswydd.**

- Mae gweinidogion a gweision sifil yn derbyn hyfforddiant ar y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol, ac ar sut i atal gwahaniaethu ac annog parch i bobl o wahanol gefndiroedd ethnig.
- Mae staff sy'n gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd yn derbyn hyfforddiant ynghylch eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf, ac yn y sgiliau sy'n angenrheidiol i gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol ac unrhyw ddyletswyddau penodol.

**Mae'r adran wedi gwneud trefniadau i fonitro staff, ymgeiswyr, a phrosesau cyflogaeth yn ôl grŵp ethnig.**

- Mae'r adran yn gyson yn monitro gweithwyr ac ymgeiswyr ar gyfer gwaith, hyfforddiant, a dyrchafiad yn ôl grŵp ethnig. Oherwydd bod ganddi fwy na 150 o weithwyr amser llawn, mae hefyd yn monitro nifer y staff sy'n derbyn hyfforddiant, sy'n elwa ar neu yn dioddef anfantais oherwydd asesiadau perfformiad, sy'n ymwneud â chwynion neu weithredu disgyblaethol, neu sy'n dirwyn eu cyflogaeth gyda'r adran i ben.
- Mae'r adran yn cymryd camau i egluro pwysigrwydd monitro ethnig dibynadwy ac i annog staff i gyd i gydweithredu drwy gwblhau eu ffurflen dosbarthiad ethnig.
- Mae'r adran yn defnyddio'r data monitro ethnig i osod targedau ac i weithredu, i annog ymgeiswyr o grwpiau ethnig sy'n cael eu tan-gynrychioli mewn meysydd gwaith arbennig ac i ymdrin ag unrhyw effaithiau niweidiol y gallai ei pholisïau cyflogaeth a'i gweithdrefnau cyflogaeth eu cael.
- Mae'r adran yn cyhoeddi canlyniadau ei monitro yn ei hadroddiad blynyddol.

© Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Elliot House, 10–12 Allington Street, London SW1E 5EH.
Cyhoeddwyd Mehefin 2002. ISBN 1 85442 475 0

# Y côd a'r canllawiau

COMMISSION FOR RACIAL EQUALITY
COMISIWN CYDRADDOLDEB HILIOL

## Chwe ffordd rwydd i archebu oddi wrth TSO

### Ar lein
Ymwelwch â **www.tso.co.uk/bookshop** a chwiliwch am y cyhoeddiad angenrheidiol, yn ôl ISBN neu deitl.

### Ar y ffôn
Galwch **0870 240 3697**
(Ffôn testun **0870 240 3701**)

### Drwy ffacs
Ffacsiwch eich archeb i **0870 240 3698**

### Drwy ebost
Ebostiwch eich archeb i **CRE@tso.gov.uk**

### Siopau TSO
Ymwelwch â'ch siop TSO leol yn Llundain, Caeredin, Caerdydd, Belfast, Birmingham, neu Fanceinion

### Drwy'r Post
Anfonwch eich archeb at:

**CRE Customer Services**
**PO Box 29**
**NORWICH NR3 1GN**

Gwnewch sieciau yn daladwy i
**The Stationery Office Ltd**

## FFURFLEN ARCHEBU

| TEITL | ISBN | PRIS (£) | NIFER | DYLEDUS(£) |
|---|---|---|---|---|
| **Côd Ymarfer Statudol ar y Ddyletswydd i Hyrwyddo Cydraddoldeb Hiliol** | 1 85442 430 0 | **10.00** | | |
| **Canllawiau i Awdurdodau Cyhoeddus** (anstatudol) | 1 85442 431 9 | **7.00** | | |
| **Canllawiau i Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch** (anstatudol) | 1 85442 432 7 | **5.00** | | |
| **Canllawiau i Ysgolion** (anstatudol) | 1 85442 433 5 | **5.00** | | |
| **Monitro Ethnig: Canllaw i awdurdodau cyhoeddus** | 1 85442 434 3 | **10.00** | | |
| **Pecyn Côd Ymarfer** (y pum teitl) | 1 85442 435 1 | **35.00** | | |
| | Tâl trin y llyfrau | | | **3.00** |
| | Disgownt ar brynu mewn swmp | | | |
| | Cyfanswm | | | |

### Disgownt ar brynu mewn swmp
10–25 copi: **10%.** 25–99 copi: **20%.** 100+ copi: **30%.**

### Llenwch y canlynol yn llawn os gwelwch yn dda

**Enw** **Teitl**

**Teitl y Swydd**

**Corff**

**Cyfeiriad**

**Côd Post**

☎ **Rhif ffacs**

**E bost**

### Dull talu

❑ Dymunaf dalu drwy siec sy'n daladwy i:
**The Stationery Office Ltd**

❑ Dymunaf dalu gan ddefnyddio fy Rhif Cyfrif TSO:

❑ Dymunaf dalu drwy gerdyn credyd:
Mastercard / Visa / Amex (dilëwch fel bo'n berthnasol)
Rhif y cyfrif:

Côd diogelwch y cerdyn:

(Rhaid cynnwys hyn er mwyn i ni brosesu eich archeb. Ar gardiau Mastercard neu Visa y rhif hwn fydd y 3 digid olaf ar y stribed llofnod ar gefn y cerdyn. Ar gardiau American Express dangosir hwn fel rhif 4 digid ar flaen y cerdyn).

Dyddiad dirwyn i ben: Rhif dosbarthu:

**Llofnod**

**Dyddiad**